

Dathlu'r 100: Nodwedd newydd ar y cyd â Chymdeithas Gwaith Maes, tudalen gefn i bobl ifanc, Llygad y Dydd.



I Keith O'Brien Trawsfynydd 24 Ebrill 2016

Yr Ysgyfarnog ('Sgwarnog' ar lafar)

...Mae'n debyg mai dim ond y Derwyddon oedd â'r hawl i ddal ysgyfarnog yn eu dydd a'i bod yn waharddiedig, neu'n tabw, i bawb arall. Efallai bod adlais o hynny yn stori y dywysoges Melangell. Roedd hi'n gweddio un dydd – pan redodd ysgyfarnog ati a chuddio dan ei chlôg hi – rhag helgwn y Tywysog Brochfael. Fe amddiffynodd Melangell yr ysgyfarnog, a chymaint oedd edmygedd Brochfael o'i safiad nes rhoddodd y tir iddi'n rhodd – ac yno y sefydlodd hi Eglwys Pennant Melangell. Ceir ffenestr-liw hardd yn yr Eglwys yn dangos y stori.


Ond tybed a oes yna fwy i'r cyswllt rhwng Melangell a'r ysgyfarnog? Er enghraifft cysylltir yr ysgyfarnog â duwies y lleuad, nid yn unig yn y gwareiddiad Celtaidd, ond ar draws y byd. Coel, led ddiweddar, sy'n gyffredin drwy wledydd Ewrop yw mai y llun a welwch ar wyneb y lleuad yw hen ŵr yn cario baich o goed ar ei ysgwydd ac mai wedi ei alltudio yno yr oedd o am hel priciau tân ar y Sul! Ond mewn rhannau eraill o'r byd, yn cynnwys yr India, y dwyrain pell, de Affrica ac yn ysgrif-luniau'r Aztec ym Mecsico, ysgyfarnog neu wningen welir. Efallai bod adlais o'r cyswllt hwnnw yn stori Melangell, ac yn enghraifft o'r modd (cyffredin) y trawsnewidir motifff paganaidd drwy ei Gristioneiddio

Twm Elias Radio Cymru erthygl llawn yma

Prosiect Llên Natur

Pwy 'di pwy?

Twm Elias
Cadeirydd y Prosiect



Seléb cymraeg. Naturiaethwr. Hanesydd cefn gwlad. Arbenigwr llen gwerin. Awdur toreithiog. Darlledwr. Ymgyrchydd iaith. Magwyd ar ferm yng Nghlynnog. Byw yn Nebo. Dyn y can-dŵ.

Rhys Madog
Technegydd y wefan



Cefais fy magu ym Mhorthmadog, ac erbyn hyn yr wyf yn byw mewn hen gapel yn Llanfrothen. Am gyfnod yr oeddwn yn gweithio yn y maes technoleg gwybodaeth ac oherwydd hynny wedi cael fy mhenodi yn Dechnegydd Cynorthwyol ar wefan Llên Natur. Er bod yr hen sgiliau cyfrifiadurol ychydig yn rhydllyd erbyn hyn, gobeithio fy mod dal i gofio digon i helpu. Ar hyn o bryd, yr wyf yn astudio ar gyfer M.A. yn yr Adran Gymraeg ym Mangor, gan ganolbwyntio ar farddoniaeth a'r amgylchedd. Fel arall, yr wyf yn ceisio gweithio ychydig er mwyn talu'r biliau a threulio peth amser yn y 'byd go iawn'.

Duncan Brown
Golygydd y Prosiect



Ganwyd yn Swydd Derby, magwyd yn y Waunfawr. Diddordebau: natur, iaith, celf, gwyddoniaeth, hanes y pethau bach (canys hwy a ddatgelant wirioneddau!), gwleidyddiaeth, achub y byd (!), rhoi pobl ar waith i Llên Natur a bod yn niwsans!

Gwirfoddolwyr

Brenda Jones (dyddiaduron)
Einir Thomas (dyddiaduron)
Pryderi Thomas (dyddiaduron)
Rwth Tomos (dyddiaduron)
Huw John Huws (enwau)
Eilir Evans (enwau)
Sue Walton (enwau)
Chris Simkins (dyddiaduron)

Yngynghorwyr pwnc

Bruce Griffiths (iaith)
Ann Corkett (iaith)
Rhisiart Hincks (iaith)
Allan Brandon (gweision neidr)
Sion Roberts (y môr)
Wendy McCarthy (planhigion)
Debbie Evans (ffyngau)
Davyth Fear (adar)
Peter Edwards (Awstralia)
Oliver Prys Jones (gwenyn)
Huw Jones (tywydd)
Elizabeth Spence (Canada)
Steve Roddck (mapiau)

Fotograffwyr

Alun Williams (Betws y Coed)
Eifion Griffiths (Dyserth)
Keith O'Brien (Trawsfynydd)
John Bundock (Awstralia)
Gareth Jones (Pwllheli)

Ifor Williams
Technegydd y Bwletin a
Thrysorydd y Prosiect



Yn enedigol o'r Groeslon, byw yn Llanfaglan bu'n dechnegydd ym Mhrifysgol Bangor. Diddordebau: hanes, y byd o gwmpas, peiriannau, Ffotograffiaeth, beicio, mesur y tywydd, Cymdeithas Hanes y Tair Llan, Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, Canolfan Bro Llanwnda, Clwb Garddio Felinwnda, Cymdeithas Ddinesig Caernarfon, grwp Gefeillio Caernarfon/Landerne, Fforwm Hanes Cymru, Canolfan Uwchgwyrfai, a mwy.

Graham Cook
cyfieithydd y Ffrangeg



Un o Lundain, addysgwyd yno ac ym Mhrifysgolion Bryste, Sussex a Chaint. Athro yn Wolverhampton, wedyn darlithydd yn Brighton nes ymddeol 1996 - helo Cymru! Diddordebau: rhedeg, cerdded, darllen, rhaglennu cyfrifiadurol Apple Mac. Mwynhau gwyn, blodau, ystod eang o gerddoriaeth - diolch i bawb am gymorth efo'r iaith!

Gwyn Williams
Technegydd y Wefan



Man geni: Llanelwy Magwyd: Llanuwchllyn a Dyffryn Nantlle Byw: Rhuthun Galwedigaeth: Peiriannydd Dwi'n mwynhau cerdded ar fy mhen fy hun yng nghefn gwlad. Dwi'n ffotograffydd brwd ac o hyd yn chwilio am luniau sydd ychydig bach yn anghyffredin.

Dominig Kervant
Ymgynghorydd Llydaweg



Athro Ffrangeg yn Ysgol David Hughes. Magwyd yn Ar Gemene, Llydaw. Peiriannydd fel gyrfa gyntaf. Byw yn Nhregarth gyda Ffion a'u tair merch. Ymgyrchydd brwd dros Lydaw unedig. Athro Llydaweg. Cogydd. Cyfrannodd i sawl helfa ffwng Llên Natur fel cogydd ffyngau.

Cofiw'n hefyd y nifer mawr o ddefnyddwyr, cyfranwyr a ffyddloniaid eraill sydd yn gwneud y Bwletin hwn yn bosibl.

Asgwrn y wrachen

Tra'n cerdded ar Drwyn Cilan heddiw gwelsom hwn. Mae yn debyg i asgwrn ac mae y pethau gwyn yn



debyg iawn i ddanedd...

Unrhyw syniad beth ydyw? (dylai'r maint fod yn amlwg o'i gymharu â'r darn 1c)

Gareth Jones

Meddai Sion Roberts: Danedd Labrus bergylta, cleiriach y gwymon, gwrach, ballan wrasse. Mae'r



gair wrasse o'r Gernyweg: *gwrach* fel yn y Gymraeg.

Asgwrn yng ngwddf y pysgodyn ydyw, i falurio crancod a chrachod mor. Mae'r asgwrn wedi'w ddefnyddio yn hanesyddol fel amulet, talisman, rhywbeth swynol:

The CROSH BOLLAN is the cross-shaped throat bone of the wrasse. It is used as an amulet by Manx fishermen:

*If bollan cross
Be in your purse
You'll never stray
And lose your way.*

Daw hwn o'r cwpled Manaweg
*My crash bollan ayns dty sporrán
Cha jean oo dy bragh er-shagheyn.*

The merit of the Crash Bollan is to keep the wearer of it from the power of the Little People, and I am told also that one cannot make a mistake when carrying it on one. .

A Vocabulary of the Anglo-Manx dialect OUP 1924

Y rheswm gwreiddiol drost yr ofergoel hyn yw: Byddai'r asgwrn yn cael ei ddefnyddio gan yr hen hen longwyr (ers oes yr efydd?) i bwyntio pa ffordd i fynd adre. Os oedd y llongwyr ar goll, byddant yn dweud rhyw bader i St Padrig, a cyn hynny i Fanawydan, Poseidon, Neptune (yr enw Manaweg ar y 'sgodyn yw: eog Manawydan)... Yna taflu'r asgwrn ar ford y llong, mae'r asgwrn siap croes, neu saeth, a byddent yn dilyn y cyfeiriad a ddangosir gan y'r asgwrn. Fe welir y dewiniaeth yma: taflu'r esgyrn, ymysg pobol cyntefig ymhobman - gwelais ddyn ar raglen deledu Gordon Buchanan: Lion people of the Kalahari, wythnos nol yn taflu esgyrn cyn mynd i hela. **Sion Jones (hanes gyflawn yma**

Ymddiheurwn i Aled Jones, Penrhyndeudraeth am beidio ei gydnabod yn ei eitem ar y crwbach cyn melyn (Bwl 99)

Resétiau taid fy nhaid

I have my great great grandfather's (George Prytherch) note book, he was born 1865 and died 1947, he was a carpenter and lifeboatman at Rhosneigr. In the book are notes and recipes, a cure for Asthma, how to make polish for an oak coffin lid, how to make French Polish... Half the book is given over to what appears to be biblical extracts written in Welsh. The other half is notes about recipes for cold remedies etc. and then recipes for French polishing etc
There is a recipe for colds, with mixtures, like Syrup of Squills, Epecunanaba, Paregoric, and 2oz. Candeid peel and recipe for the bowls, Sulphate of Soda, 4oz for 2d. a teaspoon full in a little warm water.

Steve Roddick

Roedd Mair Wyn Thomas hefyd yn cyfeirio at y 'squills' ac yn nodi mai *Urginea* neu nionyn y môr oedd yr enw arno. Roedd Maurice Jones, Caernarfon yn nodi fod y "planhigyn 'Squill' yn perthyn i deulu y bwlbiau o'r enw *Scilla maritima*." Rydach chi'ch dau yn gywir – mae *Urginea maritima* a *Scilla maritima* yn enwau gwyddonol sy'n cael eu defnyddio ac yn cael ei alw'n 'sea squill' a 'sea onion' yn Saesneg. Mae'n tyfu mewn gwledydd sydd ar lannau Môr y Canoldir. Diolch yn fawr iawn i chi'ch dau am yr wybodaeth.

Bethan Wyn Jones, Herald Cymraeg



Iseren y gwanwyn yn tyfu ar y Graig Ddu ger Cricieth. Roedd miloedd ohonynt yn blodeuo yno. 27 Ebrill 2011. *Scilla verna*. **Gwyn Williams**

Rhedwr y Traeth



Esacus magnirostris rhedwr y traeth *great Australian stone plover*
Adar y Byd. Cymdeithas Edward Llwyd a Chymdeithas Ted Breeze-Jones 2015

Dyma fwy o **redwyr y byd** yn y Geiriadur Enwau a Thermau. Dyma John Bundock:

I heard that a beach stone curlew [enw lleol] had been spotted a little further north, at Merimbula. We were travelling through Merimbula so stopped for a look. Two other bird watchers were looking out for it. It emerged from the mangroves and posed for photos, seemingly realising its celebrity status as it's a rare bird that far south. This week it was reported that it has been joined by another.

Y synnwyr aroglu mewn adar

Ymddengys bod ffroenau ar flaen y pig o gymorth i'r kiwi wrth chwilio am bryfed yn y pridd ond nid yw'n syndod i mi nad yw'r trefniant yn gyffredin. Rhaid bod yn anodd osgoi mewnanadlu gronynnau

pridd ag organebau a ellir bod yn niweidiol i'r ysgyfaint (e.e. sborau ffyngau). Byddai'r lleoliad hefyd yn ychwanegu at y "dead space" rhwng y ffroenau a'r



ysgyfaint, a fyddai'r golygu defnyddio mwy o egni wrth anadlu.

Yn achos adar nad ydynt yn rhannu modd bwydo'r kiwi, byddai anfanteision ond dim manteision o leoli'r ffroenau ar blaen y pig, hyd yn oed yn achos rhywogaethau fel y **fwlturiaid** sy'n defnyddio aroglau wrth chwilio am fwyd. Tybed oes mwy o fedr clywed aroglau gan

adar na beth mae'r hen lyfrau'n ei ddweud? Rwyf wedi bod yn darllen am golomennod, a gafodd anhawster dychwelyd adre ar ôl i'w nerfau olffactori gael eu torri. Yn yr un modd dangoswyd bod pedrynod Leach yn defnyddio aroglau wrth leoli'u tyllau mewn nythfa. Yn y gorffennol mae'n debyg ein bod wedi cyffredinoli gormod o'r ychydig o rywogaethau sy wedi cael eu hymchwilio'n fanwl.

Jacki Willmington

Cegid yn cael eu bwyta



Cegid yn y pwll wrth ymyl Gwredog Isaf, Waunfawr, 4 Mai 2016. Mae'r dail wedi cael eu bwyta yn helaeth gan ddefaid mae'n debyg (olion traed yn y mwd wrth ymyl). Roedd y defaid yn y cae cyfagos i'w gweld yn pori'n braf. Dywedir mai gwreiddiau'r cegid sy'n wenwynig, ond ni welais y dail yn cael eu

bwyta erioed tan rwan.

Roedd dafad (ag oen unwaith) ger Ceunant yn ddiweddar yn rheolaidd a'i phen mewn tocyn eiddaw ar y wal tra roedd gweddiill y ddiadell yn pori'r borfa'n braf). Ai defaid unigol arbennig sydd yn cael blas ar bethau fel hyn, ynteu oes anghenion arnynt yng nghyfnod yr hirlwm a fu gyda ni tan yn ddiweddar iawn os nad o hyd.

Duncan Brown

Quebec



Adnabyddir y porth hwn - Porth Ychain - yn lleol yn ardal Tudweiliog fel Quebec yn ôl Dalanie Metcalfe. Unrhyw un yn gwybod pam?

Duncan Brown

Plas ym Mhenllech, Tudweiliog



Carreg march, neu garreg i esgyn ceffyl yw hwn (chwith) yn ôl perchnogion presennol yr hen dy. Erbyn hyn mae i'r hen garreg wasanaeth amaethyddol oes arall - sef stondin cemegolion. Isod mae carreg arysgrifedig wedi dod i'r fei o berfeddion wal ar yr un fferm. Ei arwyddocad?

Diolch i deulu Jones Plas ym Mhenllech



Morfil o ddant

O'r Canberra Times yn dangos casglwr ffosiliau gyda'i droffi pwysig dan y penawd "A Whale of a Tooth"

Peter Edwards

O gyfnod 5 miliwn o flynyddoedd yn ol roedd hwn o gwmpas 18m. o hyd ac yn fath o **forfil sberm** tebyg i **Livyatan melvillei** (morfil sberm Biwmaris - ia Biwmaris!) yn ôl y papur.



Adar yn cludo hadau i'w nyth?



Gwelais y nyth hwn yn yr ardd heddiw, 10 Ebrill 2016. Nyth llinos werdd oedd o mae'n debyg. Roedd o tua 2-3 troedfedd uwchben y ddaear. Mae'n hynod am yr egin ffromlys India neu

jac-y-neidiwr sydd yn tyfu ynddo. Gan fod hadau yn egin ar wasgar yma ac acw o dan y nyth, a rhain mewn un clwstwr tynn yn y nyth, mentraf yn reit hyderus bod yr adar wedi cludo'r hadau i gwpan y nyth yn fwrriadol. Neu oedd y nyth yn rhyw fath o dwmffat a gasglodd y hadau Tybed pam wnaethon nhw hynny a hwythau yn bwydo eu cywion ar bryfed

Gill a Duncan




Brown am filltiroedd hyd ochor afon Ystwyth. Roedd ei gyffwrdd yn chwalu'r hâu i bobman. Tom Jones (2010)

Cywriad gwymonaidd

Yn Rhifyn 99 tud. 2 cam-enwyd llun y gwymon. Diolch i Bethan Wyn Jones am gywiro:

Nid *F. vesiculosus* sy'n y llun [gwreiddiol], ond *Ascophyllum nodosum* - gwymon codog bras. *F. vesiculosus* ydi gwymon codog mân-mae'r codau fesul pâr yn y gwymon hwn. Nid bod hynny o wahaniaeth i ddehongli'r cofnod gan Thomas Jones - gwmon codog fyddai'r ddau fath i TJ efallai?




Bara Lawr

Hen boten na bu eto – ei salwach Sylwedd ar fwrdd Cymro;
Bara lawr fel baw rhyw lo –
I'r call, byd gwell bai hebdo.

Pwy ysgrifennodd hwn?

Peter Edwards

Bae Caernarfon - canrif ymlaen



Chi drigolion y glannau, ydych chi wedi gwirio dyfodol eich ardal chi eto?

Rhosyn Dewi

Dw i'n cyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg ac mae'r awdur yn sôn am 'rhosynnau Dewi' sy'n tyfu ar yr arfordir yn Sir Benfro, yn ôl fo. Dydy'r enw ddim yn gyfarwydd i mi, ac wrth drïo gwlglo dw i'n methu ei dracio lawr... Unrhyw syniad beth ydyn nhw yn Saesneg, neu yn Lladin hyd yn oed?

Sue Walton

Wedi edrych am rosyn Dewi yn google images ac ymysg pob mathau o rwtsh arall yr unig rosyn sy'n dwad i fyny yw y rhosyn bwrned, *burnet rose*, *Rosa pimpinellifolia*. Rhosyn gwyn hyfryd â channoedd o bigau ar y coesyn, fel draenog. Hwn yn gyfyngedig i'r twyni tywod ar yr arfordir neu ar garreg galch. Fe'i gweli yn gyffredin iawn, er engraifft, ar ochrau'r llwybr o faes parcio twyni Harlech i'r traeth. Rhosyn yr arfordir yn sicr. Cynnig mai hwn ydy'r 'rhosynnau Dewi'. Dydy'r enw hwn ddim yn y llyfrau, na GPC. Biti nad oedden yn gwybod amdano cynt – enw lleol sy'n lot gwell na rhosyn bwrned.


Twm Elias

Nid oes gennym chwaith lun yn yr Oriel nac yn Wikipedia o'r rhosyn cyffredin hwn o dan unrhyw enw. **Dyma'r lluniau** o rosod sydd yn Wici. Beth am fynd ati i lenwi'r bylchau? Dewch a'ch lluniau.

Cofiwch ddefnyddio'r dolenni coch yn y testun i chwilota ymhellach

Dyddiau deilio un fasarnen yn Harlech

blynyddoedd **glas** = gwanwn hwyr, **coch** = gwanwyn cynnar, **gwyrdd** = gwanwyn normal, **du** = dim sylw
print trwm = hwyr neu gynnar iawn



Bu ffermwr o waelodion Harlech (sydd eisiau aros yn ddiennw) yn cadw cofnod dros gyfnod o hanner canrif o'r bron o'r dyddiad y bu i fasarnen o flaen ei dy ddechrau deilio pob gwanwyn. Daeth y cofnodion i ben yn 2006 pan ddymchwelodd y goeden. Fe welwn y cofnodion uchod ar ffurf graff.

Mae'r llinell fathemategol drwy'r graff yn dangos tuedd i ddeilio'n gynt dros y cyfnod ond nid yw hyn yn arwyddocaol yn ystadegol


Dyma luniau'r anifeiliaid a phlanhigion y sonnir amdanynt yn y graff isod (yn eu trefn yn fras)



Duncan Brown (uchod a chwith)


Daw'r lluniau o Oriol Llên Natur

Gwyn Llywelyn (isod)



Duncan Brown (uchod)
Eifion Griffiths (de)

Gweler hwn hefyd yn y graff isod




Crëyr y Môr Tawel

Crëyr y Môr Tawel

I am a volunteer at the Reserve, keeping an eye on things and helping visitors with information. Monday last week I was walking around an area of the Reserve known as "The Sanctuary", with fellow Welshman David Rees. We saw our first **white-necked heron** there, an uncommon bird around Canberra and not one we'd previously seen at Tidbinbilla. We then had a great view of a platypus, feeding in the stream. I took some photos but David topped them by taking this lovely film:


Ardea pacifica
crëyr y Môr Tawel
Gwarchodfa
Tidbinbilla, John
Bundock



Y Fursen

Bwletin diweddaraf prosiect gweision neidr gogledd Cymru.

Cwmpawd y Llydäwr



Cwmpawd y Llydäwr

<http://www.nhu.bzh/vents-interdits/>

Gwenynen durio Sŵ Bae Colwyn

Roedd hi yn Sŵ Bae Colwyn, yn rhydd ddim mewn cratsh, p'nawn Sul, Ebrill 24ain, 2016.



Twm Elias
Looks like Andrena fulva.
Oliver Prys Jones

Mwy am lusenwau ardal

Clywais yr ymadrodd "Barlats Llandudoch" - enw difriol trigolion tref Aberteifi ar drigolion Llandudoch. Ni welais gofnod ohono yn unman. **Dai Thorne**

Dyma ateb i Roddy McClean o Inverness a ofynnodd y cwestiwn gwreiddiol **Bwl 99, tud. 6**

Roddy. We've had an immediate response from south Wales to your question about animal nicknames in Bwletin 99 Llên Natur - below. Barlats Llandudoch seems to be a defamatory form meaning 'Llandudoch drakes' (or possibly Llandudoch "clergymen raised as Methodists") by the residents of Cardigan, hitherto unrecorded. The dictionary quote below is part of a much fuller entry in Geiriadur Prifysgol Cymru regarding barlats.

Dyma gofnod Geiriadur Prifysgol Cymru:

barlad, barlat
[amr. ar marlat, gydag m- a b- yn ymgyfnewid, cf. matog, batog]
eg. ll. barladiaid, barlataid, barlatod.
Ceiliog hwyaden; hwyaden wyllt; hefyd yn ffig. offeiriad a fagwyd fel Methodist:
drake; mallard; also fig. clergyman raised as a Methodist.

Meddai Dai: "Creadur sy'n adnabyddus am wneud annibendod, drwg, llygredd" yw hwyaid a gwyddau.

Peg y Sipsi



Bum yn holi am fywyd sipsi lleol yn ddiweddar, ac fe gefais weld un o begiau dillad byddai'r sipsiwn yn arfer

eu gwerthu. Daw'r coedyn o goed cnau, a'r stribedyn metel o dynniau cig. Sylwch hefyd ar yr hoelion bychan, mae yna dair ar y peg hwn. Gwnaethpwyd hwn gan un o gyfeillion Llên Natur, sef Tony Lovell o Gaernarfon.

Ifor Williams

Picellwr pedwar-nod yn Trwyn Cilan



Gwelsom y "gwas neidr" hwn bore ddoe [12 Mai 2016] ar Drwyn Cilan SH 292 234. Lle annisgwyl (gen i) i weld gwas neidr?

It's L. quadrimaculata, probably a female rather than immature male. No doubt it was feeding up along the coastal path before returning to the ponds to get mated.



Allan Brandon



Llygad y dydd

CYMDEITHAS
GWAITH MAES
arwain addysg yr amgylchedd yng nghymru

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o bosau i chi -





adnabod

Adar yr Haf

**ac
ennill
gwobr**

£10 am yr ateb gorau
i'n cyrraedd erbyn
15 Gorffennaf

trwy ebost Llên Natur
i
llennatur@yahoo.co.uk




Beth yw enwau'r adar?

Ysgrifennwch stori fer
am yr un rydych
yn ei adnabod neu'n ei hoffi
orau.



£ 10 i'r sgôr uchaf o
adar cywir a'r stori
orau yn nhyb y
beirniaid



Rhif y llun sydd mewn du
neu wyn. Y nifer o bwyntiau
am ei weld neu ei adnabod
yw'r rhif coch a gwyn.
Tynnwyd pob llun gan
ffotograffwyr Llên Natur ac
mae manylion pob un i'w
gweld yn yr Oriel